Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl386

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cyllid print glas trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn 2022/23, cytunodd pob CHTh yng Nghymru i gefnogi sefydlu tîm amlasiantaeth rhithwir Cymru gyfan – Print Glas Trais yn Erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Cytunodd Llywodraeth Cymru a Phlismona yng Nghymru i fabwysiadu ymagwedd Print Glas i gefnogi cyflenwi yn erbyn Strategaeth Genedlaethol Trais yn Erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022 – 2026, a olygodd y gallai asiantaethau datganoledig, asiantaethau heb eu datganoli, sefydliadau anllywodraethol, gwasanaethau arbenigol a goroeswyr gydweithio i gydlynu camau gweithredu a hybu gweithgareddau i gyflenwi ein blaenoriaeth ar y cyd o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rhoddodd pob SCHTh a Heddlu yng Nghymru gyfraniad ariannol o 2023/24 i 2024/25 i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r strategaeth ac ymgorffori'r ffrydiau gwaith i fynd i'r afael â themâu presennol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Gofynnir am arian pellach ar gyfer y 3 blynedd nesaf i barhau i gydlynu gweithgarwch amlasiantaeth y rhaglen newid drawsnewidiol i gyflenwi yn erbyn Strategaeth Genedlaethol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad:**
Argymell bod cyfraniad ariannol o £40,000 yn cael ei roi ar gyfer 2025/26 yn unig. Bydd hyn yn cael ei ariannu o gyllideb y Gronfa Arloesedd.
Penderfynir ynghylch cyfraniadau ariannol yn y dyfodol yn dilyn cyhoeddiadau'r adolygiad o wariant yn ystod 2025/26.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 02/06/25**